## Swper yr Arglwydd

Ac wrth iddynt fwyta, cymerodd Iesu fara, ac wedi bendithio fe'i torrodd a'i roi i'r disgyblion, a dywedodd, 'Cymerwch, bwytewch; hwn yw fy nghorff'. A chymerodd gwpan, ac wedi diolch fe'i rhoddodd iddynt gan ddweud, 'Yfwch ohono, bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed i, gwaed y cyfamod, a dywelltir dros lawer er maddeuant pechodau' (Mathew 26:26).

Dyma eiriau cyfarwydd i bob un sydd wedi bod mewn oedfa gymun. Dyma fersiwn Mathew o Iesu'n sefydlu ordinhad Swper yr Arglwydd.

**Gŵyl y Pasg:**
Mae'n noson y Pasg yn Jerwsalem, a nifer fawr o Iddewon wedi dod yno i ddathlu'r Pasg. Roedd Duw wedi gorchymyn i'w bobl gofio am y waredigaeth ryfeddol a gawsent o'r Aifft. Yn arbennig, fe fydden nhw'n bwyta oen y Pasg, oen gwryw heb nam, oherwydd gwaed yr oen o gwmpas eu drysau yn yr Aifft oedd wedi peri i angel dinistriol yr Arglwydd fynd heibio iddynt wrth ladd pob cyntaf-anedig.

**Y bara:**
I'r Iddew, roedd y bara croyw yn atgof o'r ffaith eu bod wedi gadael yr Aifft ar frys, heb amser i baratoi bwyd, a bod Duw wedi eu gwaredu â llaw nerthol (Exodus12-13). Mae'r Arglwydd yn rhoi symbolaeth newydd i'r bara, gan gyfeirio ato fel ei gorff a fyddai'n cael ei dorri ar groes Calfaria. Mae hyn yn cysylltu â'i eiriau yn Ioan 6 pan gyfeiriaato'i hun fel 'bara'r bywyd', y gwir fara o'r nef. Fel roedd Duw wedi darparu'r manna i'r genedl yn yr anialwch, mae wedi darparu Crist i ni tra'n bod yn y byd, ar y ffordd i ogoniant y Ganaan nefol.

**Hwn yw fy nghorff:**
Mae'n gwbl amlwg mai trosiad yw hwn ac na all olygu bod y bara a chorff Crist yn un, neu fod y bara'n troi'n gorff Crist. Mae Iesu'n bresennol gyda'r deuddeg yn ei gorff ac mae'n dal y bara yn ei law.

Mae Iesu'n defnyddio iaith symbolaidd gydol ei weinidogaeth; e.e., mae'n sôn am 'surdoes y Phariseaid', sef eu hathrawiaeth gau, ac mae'n sôn am ei gorff fel 'y deml hon'. Mae Iesu hefyd yn defnyddio trosiadau wrth sôn amdano'i hun: e.e., mae'n ei alw ei hun yn 'wir winwydden' a 'drws y defaid'. Mae'n amlwg gyda'r cyntaf ei fod yn cymharu perthynas y winwydden â'r canghennau â'i berthynas ef â'i bobl.

**Hwn yw fy ngwaed:**
Byddai cyfeiriad at waed yn siŵr o atgoffa'r disgyblion o waed yr oen a oedd wedi ei beintio o gwmpas drysau tai yr Iddewon yn yr Aifft. Roedd angel dinistriol Duw yn mynd heibio (Saesneg 'passover') yn symbol o farn Duw yn mynd heibio i bob un sy'n ymddiried yng ngwaed Crist, sef ei aberth dros bechod ar Galfaria.

**Gwaed y cyfamod:**
Mae'r term ynm'n dod yn syth o Exodus 24:1-11 sydd yn cofnodi diwrnod mawr yn hanes y genedl. Wedi derbyn Cyfraith Duw, galwyd Moses, Aaron a'i feibion, a saith deg o henuriaid, yn cynrychioli'r genedl, i Fynydd Sinai.

Moses yn unig oedd yn cael agosáu at Dduw ac, wedi offrymu aberthau, mae'n taenellu hanner gwaed yr offrymau ar yr allor a'r hanner arall dros y bobl. Mae hyn yn selio cyfamod Duw â'i bobl. Roedd y bobl hwythau yn addo cadw gorchmynion Duw oherwydd y waredigaeth o'r Aifft.

Derbyniodd Duw'r offrwm ac addewid y bobl. Mae'n dangos hynny trwy ganiatáu i'r saith

deg tri arall nesáu ato gyda Moses; maen nhw'n cael gweld Duw mewn gogoniant ac yn cael cyd-wledda yn ei bresenoldeb.

**Cyfamod newydd:**
Wrth ddweud bod y cyfamod yn newydd, mae Iesu'n dangos nifer o wahaniaethau rhwng Exodus 24 ac arwyddocâd Swper yr Arglwydd.

Mae'r cyfamod newydd yn cael ei selio â gwaed Mab Duw, nid gwaed anifeiliaid. Mae'r cyfamod newydd yn arwain llawer (28), trwy ffydd yn ei aberth, i gyfamod â Duw, sydd yn golygu ei weld yn ysbrydol a gwledda ar ei gariad.

Mae'r cyfamod newydd yn golygu bod Cyfraith Duw yn cael ei gosod yng nghalon ei bobl, sef bod awydd gwirfoddol, parhaus ganddynt i ufuddhau i'w air ar sail ei waredigaeth, sef maddeuant pechodau (Jeremeia 31).

**Tamaid i aros pryd:**
Wrth ddweud y byddai'n yfed gwin eto yn nheyrnas ei Dad, mae Iesu'n ein hatgoffa y cawn wledda i dragwyddoldeb gydag Ef yn y nefoedd. Felly, rhagflas o wledd barhaus yw Swper yr Arglwydd i ni ar hyn o bryd.

**Bwytewch ac yfwch:**
Gweithred allweddol yn y swper oedd i'r disgyblion fwyta ac yfed, iddynt dderbyn y bara a'r gwin. Mae hynny'n symbol clir o dderbyn Crist, o ymddiried yn ei aberth iawnol ar y groes, er mwyn cael bwyd a diod, sef bywyd tragwyddol i'n heneidiau llesg a llwglyd.

***John Treharne***